Cyngor Tref Penmaenmawr

Rhifyn 2

Hydref 2009

Y Dref ar Dafod Pawb

Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol .....

Diolch i bawb a gwblhaodd yr Holiadur Cymunedol. Bu'n gymorth i'r Cyngor wybod yr hyn yr hoffech ei weld yn digwydd i Benmaenmawr, Penmaenan a Dwygyfylchi; cafwyd safbwyntiau disgyblion o ysgolion cynradd a grwpiau ieuenctid lleol hefyd!

Dyma ni'n gofyn am eich safbwyntiau a dyna a wnaethoch!

Roeddem yn teimlo fod yna ymdeimlad cadarnhaol a bywiog; gydag adfywio adeiladau yng nghanol y dref, a'i harddwch (ym Mhenmaenmawr a Dwygyfylchi) gyda phlanhigion a basgedi blodau, a bod hynny wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi codi ysbryd pobl.

Mae Pant-yr-Afon yn 'fywiog!'.

Rydym wedi darllen safbwyntiau pobl ynglŷn â'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn y pentrefi ac wedi eu nodi; rydym wedi ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu sylwadau.

Darllenwch yr adroddiad

llawn. Mae'r adroddiad ar gael i edrych arno yn y Llyfrgell.

Un person lwcus!

Byddwch yn cofio fod enwau holl aelodau'r gymuned a gwblhaodd a dychwelodd yr Holiadur Cymunedol wedi eu cynnwys yn y gystadleuaeth ar gyfer gwobr.

Felly, enw pa berson lwcus a gafodd ei dynnu allan o'r bocs?

Llongyfarchiadau mawr i un disgybl lwcus o Ysgol Pencae. Gobeithio ei fod wedi mwynhau ei wobr drwy garedigrwydd y Cyngor Tref, o bryd o fwyd i ddau a gafodd ei gynnal ar yr achlysur yma yn y Gladstone.

Cyflwynwyd y wobr gan y Maer.

Cadw mewn cysylltiad .....

Croeso i'r ail rifyn o 'Y Dref ar Dafod Pawb'. Dyma chi'n dweud fod y rhifyn cyntaf yn llwyddiant, ac wrth i ni roi beiro i bapur rydym yn eithaf sicr y byddwch yn hoffi'r rhifyn yma hefyd!

Ers mis Ionawr, mae Cyngor Tref Penmaenmawr wedi bod gyda'i gwefan ei hun. Sefydlwyd y wefan yn y lle cyntaf er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gydag un clic ar y llygoden mae gennych y rhyddid i edrych ar amrediad eang o wybodaeth yn ymwneud â pholisïau, prosiectau a gweithredoedd y Cyngor.

Ewch i —

www.penmaenmawr.org

Er ein bod yn disgwyl i'r wefan fod y prif adnodd ar gyfer darganfod gwybodaeth, gallwch hefyd gael gafael ar wybodaeth ddogfennol gan y Clerc (apwyntiad yn angenrheidiol — rhowch ganiad neu gyrrwch e-bost neu lythyr) neu gyrrwch gais ysgrifenedig am gopïau o wybodaeth. Yn yr achos yma, byddwn yn codi ffi er mwyn talu am y costau —(argraffu, llungopïo a phostio).

Oeddech chi'n gwybod.....??

- *Gallwch chithau helpu 'Balchder ym Mhen' y Cyngor -*

Ymddwyn yn gyfrifol — codi baw eich ci.

Llystyfiant wedi gordyfu — gall canghennau a gwrychoedd fod yn achos o ddiogelwch. Cyfrifoldeb perchennog yr eiddo yw sicrhau nad ydynt yn rhwystr ar y ffordd, llwybrau cerdded neu i oleuadau stryd.

- *Mae yna wobr flynyddol i un person eithriadol. Enwebwch unigolyn arbennig. Gweler tudalen 3 am ragor o wybodaeth.*
- *Mae yna gystadleuaeth Ardd yn flynyddol. Mae categorïau yn cynnwys basged flodau, pot blodau gerddi preifat — **gorau** Mae'r gwobrwyo yn digwydd ym mis Medi. Ymgeisiwch eich hun neu enwebwch gyfaill —cadwch lygad allan am y ffurflenni'r flwyddyn nesaf!*
- *Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf fe wnaeth y Cyngor nifer o gyfraniadau. Mae'r rhain yn cynnwys y Digwyddiad Golau Glâs (The Blue Light Event); Clybiau Bowlio Dwygyfylchi a Penmaenmawr, Cwmni Penllan, Y Clwb Hwylio, Pen mewn Blodau, Goleuo Pen, PenTA, Cysylltu â'r Henoed , Tyddyn Bach, Grŵp Chwarae Sant Gwynan, Gemau unigol a Sêr y Mileniwm, Pensychnant.*
- *Penmaenmawr yw'r cyngor cymuned gyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ei chofnodion yn Gymraeg a Saesneg. Ar gael ar-lein ac yn y Llyfrgell.*
- *Deddf Gwahaniaethu Anabledd — Mynediad: Bellach cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Tref ar lawr gwaelod 3 Central Buildings, Pant-yr-Afon.*
- *Mae'r Llyfrgell yn adnodd gwych ar gyfer gwybodaeth — darllen yr agenda a'r cofnodion; archebu llyfr trwy wasanaeth llogi'r llyfrgell; defnyddio'r cyfrifiadur am ddim*
- *Y Bistro oedd yr adeilad diwethaf i gael ei ailwampio o dan y Fenter Treftadaeth Trefwedd. Mae'r cynllun bellach wedi ei gwblhau. Bellach ein cyfrifoldeb ni yw gwarchod a gwella ein treftadaeth a'n hamgylchedd.*

Swnian a Chwyno .....gwneud ein gorau i ddatrys problemau!

Parcio a Gyrru

Mae aelodau'r Cyngor wedi mynd o amgylch Penmaenan, Pant-yr-Afon a Dwygyfylchi gyda pheirianwyr traffig o'r Adran Briffyrdd, ac wedi llunio rhestr o flaenoriaethau ar gyfer rheoli a thawelu traffig. Bydd Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy yn gyfrifol am y gwaith yma ar ein rhan.

Baw Ci

Wel mae 'na gymaint ohonoch wedi cwyno am yr effeithiau mae baw ci yn ei gael ar yr amgylchedd; roedd y plant hyd yn oed yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r broblem yma!!!

Rydym ar ddeall fod y pwll ym Mhlas Parc Mawr yn gynheilydd.

Newyddion gwych —mae'r pwll wedi ei lanhau, ac mae'r Cyngor yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Warden Cwn.

Llwybrau Cerdded, Coed a Gwrychoedd

Gwrychoedd wedi gor-dyfu, coed sy'n tyfu drosodd a llwybrau bler —"Beth allwch chi ei wneud ynglŷn â rhain?" meddai chi. Pan yn briodol, cafodd eich sylwadau a'ch ymholiadau eu pasio ymlaen i'r asiantaethau perthnasol, ac rydym yn eu dilyn i fyny yn rheolaidd.

Ond … wyddoch chi fod y Cyngor yn goruchwylio'r rhain yn barod a pan fo'r angen yn clirio'r llwybrau cerdded —ac mae 'na rywun allan yna'n barod —ar hyn o bryd Rob Evans sy'n clirio'r mieri ac yn torri'r gwair ar ran y Cyngor!

Rydym yn gwneud ein gorau glâs .....

Er mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r mwyafrif o ddarpariaeth gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor Tref a'i chynghorwyr yn ymwneud yn weithgar â'r materion sy'n effeithio'r dref. Gall y Cyngor weithredu fel 'llygaid a chlustiau' i'r gymuned; ar adegau dim ond yna yn gwylio ac yn wyliadwrus.

Er hynny — gyda'r ewyllys gorau posib, ac wedi ymchwilio i bob dewis sydd ar gael, mae rhai pethau yn amhosib. Efallai nad oes yna ddigon o le ar gyfer gwarchodfa bws; efallai fod yna gyfyngiadau ynglŷn â mabwysiadu'r ffordd.

Ond nid popeth…….

Mae pump cyfres newydd o ymylon pafin sy'n gostwng wedi eu gosod yn y dref. Mae dau gyferbyn â'r feddygfa yn Ffordd Paradwys, ac ar bob ochr i'r ymylon pafin wrth y Ganolfan Gymunedol. Diolch i'r Cynghorydd Sir am weithredu hyn .

ein pobl ifanc yw'r dyfodol.

Mae nifer o aelodau o'r gymuned wedi datgan eu pryder ynglŷn â materion ieuenctid ym Mhenmaenmawr ac yn Nwygyfylchi. Fel Cyngor rydym ninnau'n bryderus ac yn malio hefyd. Cynrychiolir y Cyngor ar Fforwm Ieuenctid Conwy ac felly mae gennym lais mewn darpariaeth leol.

Darpariaeth ym Mhen .....

Mae'r chwilio dyfal am leoliad addas drosodd o'r diwedd, ac mae agoriad y Clwb Ieuenctid newydd yn yr Hen Swyddfa Bost ym Mhant-yr-Afon yn dod yn nes. Gyda'n pobl ifanc yn ymwneud â'r cynllunio a'r ddarpariaeth sydd ar gael, bydd y lle yn gyfan gwbl ar eu cyfer hwy.

Gwyliwch allan am y posteri!

Bydd y clwb ieuenctid ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Bydd yn agored tri diwrnod yr wythnos.

Ar nos Fawrth ceir y Noson Iau ar gyfer pobl ifanc sy'n 11, 12 a 13 oed.

Ar nos Wener ceir y Noson Hŷn ar gyfer pobl ifanc sy'n 14 oed a hŷn (mae yna ganolfan iechyd galw heibio hefyd)

Ar ddydd Mercher ar ôl ysgol mae yna ganolfan galw heibio ar gyfer pobl ifanc o bob oed, lle mae modd i bobl ifanc gael ysgafn (*tost a* i wneud cartref. dymuno

rhywbeth i'w fwyta *diod)* a lle eu gwaith Rydym yn pob llwyddiant i'r clwb.

Ar ben arall yr ysgol oedran mae yna Glwb Cinio newydd ym Maen Alaw ar gyfer y trigolion hynaf sydd eisiau cyfle i 'ymlacio'.

Cynhelir y clwb ar ddydd Llun — bob yn ail wythnos.

Ar gael -
Cinio cartref.

Adloniant

Gellir trefnu trafnidiaeth

Rhowch ganiad i Fiona ar 01492 622540 ar brynhawn Iau.

Gweithio gyda'n gilydd .....

Mae Penmaenmawr yn hynod o ffodus o gael unigolion a grwpiau gweithgar sy'n gweithio i wella'r amgylchedd a safon y profiad ar gyfer pobl sy'n byw, gweithio ac yn ymweld â'r ardal. Mae'r Cyngor yn rhannu'r weledigaeth yma. Ei nod yw gwrando a gweithio mewn cydweithrediad â'r gymuned a gyda'r bobl yma er mwyn cynnal a hyrwyddo cymeriad Penmaenmawr —ei hamgylchedd, ei threftadaeth, ei hadnoddau a'i phobl. Ac yna gobeithio, fydd popeth yn dod ynghyd.

Gwneud Penmaenmawr, Penmaenan a Dwygyfylchi yn brydferth

"Diolch yn fawr," Pen mewn Blodau: A llongyfarchiadau i chi am eich ymdrechion o wneud y dref i edrych yn hyfryd yn ystod yr hâf! Wedi cynnwys Dwygyfylchi hefyd.

Diolch i'r unigolion a'r busnesau hynny sy'n malio am y gymuned drwy helpu i ddyfru'r basgedi a'r potiau blodau. .

Gwobr Y Maer — Cyflwynwyd tocyn rhodd i Mr. Bob Bullimore gynharach yn y flwyddyn fel "diolch" arbennig iddo am ei waith cynnal a chadw a'r gwaith amgylcheddol a wnaeth yn y dref yn wirfoddol —tynnu chwyn a thorri llystyfiant. Aelod gwerthfawr o'r dref.

Gwobr Dinesydd —Ydych chi'n 'nabod rhywun i'w henwebu ar gyfer y Wobr Dinesydd — rhywun sy'n gwneud cyfraniad eithriadol i'r 'Balchder Pen'? Mae yna un wobr yn flynyddol, felly rhowch wybod i'r Cyngor am yr unigolyn arbennig yma. Gyrrwch eich enwebiadau i'r Cyngor (llythyr, ffôn neu e-bost) erbyn 11eg o Ionawr 2010.

Rhywbeth da ar gyfer y Flwyddyn Newydd!

Tref sy'n anrhydedd .....

Gardd y Chwarel: Ar yr 8fed o Fai agorwyd Gardd y Chwarel yn swyddogol. Gwnaeth y Cyngor gyfraniad hael i Grŵp Amgylcheddol Cymunedol Penmaenmawr (*Pen mewn Blodau*) tuag at gost y rheiliau smart ac addurniadol.

Statws Croeso i Gerddwyr: Roedd y Cyngor yn falch o allu cefnogi *Stori Pen Cyf* gyda'u cais; mae Penmaenmawr bellach yn un o 32 tref a phentref ar draws Prydain sydd wedi ymrwymo i wneud y lle yn un braf i ymweld ag ef. Roedd Penmaenmawr wedi cwrdd â'r chwe maen prawf er mwyn ymaelodi yn llwyddiannus a fydd yn elwa pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr. Mae'r Cyngor wedi penderfynu cefnogi'r fenter yn y cychwyn cyntaf drwy sicrhau fod llwybrau cerdded a chyfleusterau i gerddwyr yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Dyma dri o'r cynghorwyr yn mynychu'r lansiad, gan gerdded y daith dan arweiniad o Fythynnod Efrog Newydd i Bendalar ar draws y pontydd cerdded a beicio newydd Pen-y-Clip. Cafodd rhwymedigaeth Penmaenmawr ei groesawu'n gynnes gan yr AS Betty Williams ac aelodau cymunedol o Lanfairfechan.

Lleoliad sydd â rhywbeth arbennig i'w gynnig i gerddwyr !

Oedi i feddwl: Caiff mainc newydd cyhoeddus ei osod hanner ffordd ar y llwybr beicio newydd (sydd bellach yn gysylltiadau diogel rhwng Penmaenmawr a Llanfairfechan). Caiff ei ariannu gan y ddau Gyngor cymunedol yma. Eisteddwch arno i wylio allan am y dolffiniaid mae rhai aelodau o'r gymuned wedi eu gweld.

Edrych at y dyfodol —blaenoriaethau newydd i'r dref ???

Beth yw'r safbwyntiau ar ddyfodol Canolfan Gymunedol Penmaenmawr ?

Ar nodyn trist, mae'r Ganolfan yn methu. Mae'r adeilad ei hun yn dirywio, ac mae tu fewn i'r adeilad yn hen ffasiwn ac yn anaddas ar gyfer dibenion modern. Mae'r Cyngor wedi gwneud dau gyfraniad i'r Pwyllgor Rheoli— un i'w galluogi i wneud cais grant am ffenestri newydd ac un arall tuag at gost gwasanaethau cyhoeddus. Ond tydi hynny ddim yn ddigon! Mae'r Ganolfan dan fygythiad o gael ei gau a hynny'n fuan.

Y gymuned sy'n berchen ar yr adeilad, felly beth am ddweud eich dweud! Ydych am iddo gau?

Ydych chi eisiau cymorth y Cyngor? Oes gennych chi sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer canolfan gymunedol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif? Beth ddylid defnyddio'r ganolfan ar ei gyfer?

Canolfan Gymunedol Penmaenmawr

Sut gall y ganolfan fod yn hunan gynhaliol?

Gwasanaeth ATM i Benmaenmawr:

Mae yna drafodaethau parhaus wedi bod â Banc National Westminster i agor cyfleuster ATM 'am ddim' mewn siop yn y dref . Beth yw eich barn chi ynglŷn â hyn?

Cyngor Tref Penmaenmawr

3 Central Buildings
Pant-yr-Afon
Penmaenmawr LL34 6AD
LL34

Ffôn: 01492 623221
E-bost:
clerk@penmaenmawr.org
www.penmaenmawr.org



Ydych chi

- *eisiau gwneud gwahaniaeth drwy ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eich cymuned?*
- *eisiau ymuno â grŵp sy'n cydweithio ar ran y gymuned?*
- *eisiau tynnu sylw'r Cyngor at faterion lleol a helpu i wneud penderfyniadau ar ran y gymuned leol?*
- *gydag o leiaf 4 awr yn rhydd yn wythnosol?*

Yn achlysurol bydd yna lefydd gwag ac yn ystod etholiad.

Eich Cynghorwyr Tref:

Ward Penmaenan:

Cyng. Fiona MacDonald—622540
Cyng. Viv Mooney—622023
Cyng. Ken Stevens—07974 659311

Ward Pant-yr-Afon:

Cyng. Myfanwy Baines—623332
Cyng. Steve Banwell– 622955
Cyng. Christine Duckworth—622331
Cyng. Dafydd Lloyd-Borland 07968 243119
Cyng. Nia Pritchard—623118

Ward Capelulo:

Cyng. Kathryn Beard— 623182
Cyng. Harry Jones—622311
Cyng. Darrell Owens— 622048 / 07816 672492
Cyng. Carys Drury—622763

***Neu cysylltwch â ni ar** —cllr.(enw cyntaf).(cyfenw)@penmaenmawr.org*

Rhifau Cyswllt Defnyddiol —

Meddyg — Llys Meddyg, Ffordd Paradwys — 01492 623191

Meddyg Teulu — Gwasanaeth Allan o Oriau Gwaith: 0844 8118181

Galw Iechyd Cymru: 0845 4647

YSBYTAI:

Llandudno: 01492 860066

Glan Clwyd: 01745 583910

Ysbyty Gwynedd: 01248 384384

WARDEN CWN: 01492 575222

HEDDLU:
PC 2364 Mike Smith
Rheolwr Cylchdaith Gymunedol :
01492 805229
Symudol: 07800 991219
Michael.Smith@nthwales.pnn.police.uk

PCSO 2809 Nikki Adams:
01492 805472
Symudol: 07884 456445

Heddlu — rhif ar gyfer achos sydd ddim yn argyfwng — 101

RHIFAU ARGYFWNG Y CYNGOR ALLAN O ORIAU GWAITH

Draeni, ayb.: 01492 515777

Priffyrdd: 01248 680033

GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL

Ymwybyddiaeth Nodwyddau:
01492 575337

TÎM BUDD-DALIADAU CBSC
01492 576491

CANOLFAN GYNGHORI
0845 450 30 60

LLINELL ALW I DDEFNYDDWYR (Cyngor ar nwyddau a Gwasanaethau)
08454 040506

LLYFRGELL 01492 623619

Cofiwch—fod yna Wasanaeth Presgripsiwn ar gyfer Dwygyfylchi.